Mumbles Community Council

CSD2403-MI(Drafft)

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 20 March 2024 at 6.30pm via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Pam Erasmus, Sara Keeton, and Ian Scott

**Officers Present:** Paul Beynon – RFO, and Ian Hughes - CSO

**CM2403-01** **Apologies:** Cllr Francesca O'Brien

**CM2403-02** **Declarations of Interest**
None.

**CM2403-03** **Mumbles Yacht Club Discussion**

The Chair, Cllr Erasmus outlined how she had met representatives from Mumbles Yacht Club (MYC) at The Ostreme Centre on 15th March who had set out their plans to build a new yacht club facility on the seafront opposite their current location. The funding for this new complex would be made through the sale of their existing premises and lottery money.

On 20.3.24 MCC had been provided with an email, detailing the proposals and how initial funding of approximately £12,500 would be necessary to carry preparatory work such as inspections. In the event of MCC providing additional grant money MYC hope to reimburse the amount following the sale of their current premises.

The CSO had circulated the information provided by MYC to all MCC staff and councillors and invited them to the next Community & Social Development Committee Meeting on 17th April when a presentation will be made by Kimberley Littlemore who is a member of The MYC Executive.

One grant to MYC of £650 plus VAT has already been approved by Full Council at their March Meeting. A revised grant application by MYC will be considered by The Finance and Compliance Committee on 15th April 2024.

**AGREED;** whilst it may prove difficult to provide additional funds in the region of £12,500 the committee was agreed in wishing to support MYC in their venture. The CSO will continue to update all members of MCC on developments through liaison with Kimberley Littlemore.

**CM2403-04** **To approve the minutes of the previous meeting as a true record.**

**RESOLVED** to approve the minutes from the 21st February 2024, meeting as a true and accurate record.

**CM2403-05** **Outstanding Actions from Previous Meetings**

CSO outlined outstanding actions.

**RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO.

**CM2403-06** **Budget Monitoring Report to 31/01/2024**

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to councillors, the RFO briefly outlined some key points and offered to take questions in relation to these reports.

In answer to a query regarding why MCC had leased such a large area of land around The Mumbles Skatepark, committee members explained that this was the offer from SCC which had been approved by lawyers representing MCC and endorsed at Full Council.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st January 2024

**CM2403-07** **Underhill Park Update**

All new updates concerning Underhill Park had been covered by RFO in his financial reports detailed at **CM2403-06**.

**CM2403-08** **Langland Tennis Courts Update**

Similarly, Langland Tennis Courts updates had also been covered by RFO in his financial reports detailed at **CM2403-06**. Additionally, Cllr Sara Keeton outlined that the basketball court at the tennis courts had been a resounding success and that she would be providing information for the forthcoming chair's report.

**CM2403-09** **Mumbles Skate Park Update**

Again, updates had also been covered by RFO in his financial reports detailed at **CM2403-06**, with the exception of The Skatepark Jam 2023 which is detailed in the next agenda item **CM2403-10.**

**CM2403-10** **Skatepark Jam 2023**

RFO outlined expenditure connected to Skatepark Jam Event held on 10.06.2023.

**RECOMMENDED** that virement of £3,900 is made from CSD21 – Langland Bay Tennis Courts – Clubpark Gates Budget to CSD2 – Skatepark to cover the costs of the Skatepark Jam 2023. The Clubpark Gates Budget has underspent as grant funding was obtained from the LTA Tennis Foundation for the gate installed.

**CM2403-11** **Other Projects**

No new projects discussed.

Meeting finished 7.01pm

Next Meeting 17th April 2024

# Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol, a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2024 am 6.30pm trwy gyfrwng TEAMS

**Cynghorwyr yn bresennol:** Cynghorwyr Pam Erasmus, Sara Keeton, ac Ian Scott

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CM2403-01** **Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Francesca O'Brien

**CM2403-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim.

**CM2403-03** **Trafodaeth am Glwb Hwylio'r Mwmbwls**
Amlinellodd y Cynghorydd Erasmus (cadeirydd) sut yr oedd hi wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Glwb Hwylio'r Mwmbwls yng Nghanolfan Ostreme ar 15 Mawrth, a oedd wedi nodi eu cynlluniau i adeiladu cyfleuster clwb cychod hwylio newydd ar lan y môr gyferbyn â'u lleoliad presennol. Byddai'r cyllid ar gyfer y cyfadeilad newydd hwn yn cael ei godi drwy werthu eu hadeiladau presennol ac arian loteri.
Ar 20.3.24 roedd Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi derbyn e-bost yn manylu ar y cynigion a sut y byddai angen cyllid cychwynnol o tua £12,500 i wneud gwaith paratoi megis arolygiadau. Pe bai Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu arian grant ychwanegol byddai Clwb Hwylio'r Mwmbwls yn gobeithio ad-dalu'r swm ar ôl gwerthu eu heiddo presennol.
Roedd y Swyddog Cymorth pwyllgorau wedi dosbarthu'r wybodaeth a ddarparwyd gan Glwb Hwylio'r Mwmbwls i holl staff a chynghorwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls ac wedi eu gwahodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol ar 17 Ebrill pan fydd cyflwyniad yn cael ei wneud gan Kimberley Littlemore sy'n aelod o Bwyllgor Gwaith Clwb Hwylio'r Mwmbwls.
Mae un grant i Glwb Hwylio'r Mwmbwls o £650 ynghyd â TAW eisoes wedi'i gymeradwyo gan y cyngor llawn yn eu cyfarfod ym mis Mawrth. Bydd cais grant diwygiedig gan Glwb Hwylio'r Mwmbwls yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd ar 15 Ebrill 2024.

**CYTUNWYD;** er y gallai fod yn anodd darparu cyllid ychwanegol o tua £12,500, cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn dymuno cefnogi Clwb Hwylio'r Mwmbwls yn eu menter. Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i holl aelodau Cyngor Cymuned y Mwmbwls am ddatblygiadau trwy gysylltu â Kimberley Littlemore.

**CM2403-04** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 21 Chwefror 2024, fel cofnod gwir a chywir.

**CM2403-05** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o'r cyfarfodydd blaenorol**

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu oedd heb eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD** i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddaru adroddiad 'camau gweithredu heb eu cyflawni'.

**CM2403-06** **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31/01/2024**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u darparu i gynghorwyr, ac amlygodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol rhai pwyntiau allweddol a chynigodd gymryd cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiadau hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pam fod Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi prydlesu darn mor fawr o dir o amgylch Parc Sglefrio'r Mwmbwls, esboniodd aelodau'r pwyllgor mai hwn oedd y cynnig gan Cyngor Dinas a Sir Abertawe a oedd wedi'i gymeradwyo gan gyfreithwyr yn cynrychioli Cyngor Cymuned y Mwmbwls ac wedi'i gymeradwyo gan y cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2024.

**CM2403-07** **Diweddariad ar Barc Underhill**

Roedd yr holl ddiweddariadau newydd ynghylch Parc Underhill wedi'u trafod gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei adroddiadau ariannol y manylwyd arnynt yn **CM2403-06**.

**CM2403-08** **Diweddariad ar Gyrtiau Tennis Langland**

Yn yr un modd, roedd diweddariadau ynghylch Cyrtiau Tennis Langland hefyd wedi'u trafod gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei adroddiadau ariannol y manylir arnynt yn **CM2403-06**. Yn ogystal, amlinellodd y Cynghorydd Sara Keeton fod y cwrt pêl-fasged yng nghyffiniau'r cyrtiau tennis wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac y byddai'n darparu gwybodaeth ar gyfer adroddiad y cadeirydd sydd i ddod.

**Diweddariad ar Barc Sglefrio'r Mwmbwls**

**CM2403-09** Unwaith eto, roedd diweddariadau hefyd wedi'u trafod gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei adroddiadau ariannol y manylir arnynt yn **CM2403-06**, ac eithrio Jam Parc Sglefrio 2023 y ceir manylion amdano yn yr eitem nesaf ar yr agenda **CM2403-10.**

**Jam Parc Sglefrio 2023**

**CM2403-10** Amlinellodd Swyddog Ariannol Cyfrifol wariant yn gysylltiedig â Digwyddiad Jam Parc Sglefrio a gynhaliwyd ar 10.06.2023.

**ARGYMHELLWYD** bod trosglwyddiad o £3,900 yn cael ei wneud o CSD21 – Cyrtiau Tennis Bae Langland – Cyllideb Gatiau Clubspark i CSD2 – Parc Sglefrio i dalu costau Jam Parc Sglefrio 2023. Mae Cyllideb Gatiau Clubspark wedi tanwario oherwydd cafwyd cyllid grant gan yr LTA Tennis Foundation ar gyfer gosod y gât.

**Prosiectau Eraill**

**CM2403-11** Ni thrafodwyd unrhyw brosiectau eraill.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.01pm.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Ebrill 2024